| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## The General Dental Services and Personal Dental Services Transitional Provisions (Wales) Order 2006

O 1 Ebrill 2006 ymlaen, bydd y Byrddau Iechyd Lleol o dan ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau deintyddol sylfaenol yn eu hardaloedd neu i sicrhau eu bod yn cael eu darparu. Fe wnân nhw hyn naill ai drwy ddarparu'r gwasanaeth eu hunain neu drwy gontractio gyda darparwyr gwasanaethau deintyddol. Mae'r Gorchymyn yma'n gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo'r contractwyr cyfredol a darpar gontractau o'r gyfundrefn gyfredol o wasanaethau deintyddol cyffredinol sy'n cael eu llywodraethu gan Reoliadau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol 1992 a Chynlluniau Peilot y Gwasanaethau Deintyddol Personol i'r gyfundrefn newydd o Gontractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Chytundebau Gwasanaethau Deintyddol personol.

### Rheol Sefydlog 11.7

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau yma o dan Reol Sefydlog 11.7(viii). Mae'r Rheoliadau'n rhan o gyfres o offerynnau statudol sy'n sail i'r gyfundrefn newydd ar gyfer gwasanaethau deintyddol sylfaenol. Aeth y trafodaethau gyda'r Byrddau Iechyd Lleol a'r proffesiwn deintyddol ymlaen yn hirach na'r disgwyl. Gan fod rhaid i'r diwygiadau gael eu rhoi ar waith yng Nghymru a Lloegr o 1 Ebrill 2006 ymlaen, a chan fod angen cyfle i weld y ddeddfwriaeth er mwyn galluogi deintyddion a'r Byrddau Iechyd Lleol i wneud eu contractau a'u cytundebau newydd yn barod i'w rhoi

ar waith ar 1 Ebrill 2006, mae’r Gweinidog wedi cytuno bod y ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud yn uniaith Saesneg.

## Sylwadau

Dim.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 14 Chwefror 2006